COFNODION CYFARFOD **PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN,** A GYNHALIWYD NOS FERCHER, 27AIN IONAWR 2010 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Mrs V. Smith Y.H. (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr B. Cossey Y.H., P. Edwards, Mrs L. Lyon, Mrs V. Perry, P. Richards, Mrs A. Robinson B.E.M.

SWYDDOG YN BRESENNOL: Y Clerc

365 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs M. Edwards, G. Jones Y.H., A. Khan a Mrs H. Meredith.

366 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD:

Datganodd y Cynghorydd B. Cossey ei gysylltiad â Chanolfan Cymunedol Tan Lan a gadawodd y cyfarfod tra bo'r mater yn cael ei ystyried.

367 CANOLFAN CYMUNEDOL TAN LAN – 'KIDZ CLUB':

Cafodd yr eitem yma ei ohirio o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor er mwyn i gyfrif banc cael ei gyflwyno. Fe gyflwynwyd hwn erbyn hyn.

Penderfynwyd rhoi grant o £500 i 'Kidz Club' Canolfan Cymunedol Tan Lan.

368 AWDURDODI TALIADAU:

Cyflwynodd y Clerc rhestr o daliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnod 04/12/2009 – 15/01/2010 i'w hawdurdodi. (Gweler y rhestr sydd ynghlwm).

Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a gyflwynwyd.

Fe roddir yr hawl i wneud y taliadau hyn yn unol â'r canllawiau a geir yng ngwasanaethau a phwerau i gynghorau lleol fel y rhestrir yng nghanllawiau i gynghorau lleol ar reolaeth ac atebolrwydd.

369 AMCANGYFRIFON 2010 - 2011:

Cyflwynodd y Clerc yr amcangyfrifon drafft am y flwyddyn 2010 – 2011 i gael eu cymeradwyo yn ogystal â nodiadau esboniadol (ynghlwm wrth y cofnodion).

Nodwyd gan yr aelodau bod yr archebiant fesul preswylfa ym Mand D i aros yr un fath. Archebiant llynedd oedd £376,201. Roedd yr incwm yn debygol o ostwng oherwydd amgylchiadau ariannol allanol..

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cossey at y digwyddiadau oedd i'w cynnal yn y Dref y gellid eu gwella. Teimlwyd mai mater i'r Pwyllgor Amwynderau oedd hyn.

Penderfynwyd:-

1. **Cymeradwyo'r Amcangyfrifon a gyflwynwyd am y flwyddyn 2010 – 2011**
2. **Gosod yr Archebiant am flwyddyn ariannol 2010 – 2011 yn £380,000.**
3. **Bod y Pwyllgor yn argymell bod y Pwyllgor Amwynderau i gyfarfod yn y dyfodol agos i ystyried y ddarpariaeth / gwelliannau i ddigwyddiadau yn 2010-2011.**
4. **Bod y Cyngor i ystyried noddi Parcio Di-dâl i breswylwyr dros gyfnod Nadolig 2010.**

370 BANCIO AR Y RHYNGRWYD A CHANLYNIADAU ELECTRONEG:

Cyflwynodd y Clerc llythyrau i'w ystyried oddi wrth Mr David Jones AS a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Nodwyd gan yr aelodau bod y mater wedi cael ei drosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Penderfynwyd derbyn y llythyrau a'u nodi.

371 CYFYNGU AR WARIANT ADRAN 137 AM Y FLWYDDYN 2010 - 2011:

Cyflwynodd y Clerc llythyr i'w ystyried oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â'r cyfyngiad ar wariant am y flwyddyn 2010 – 2011.

Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau mai £153,750 oedd y cyfyngiad uchaf. Gwariant llynedd (2008-209) o dan Adran 137 oedd £46,330.

Penderfynwyd derbyn y llythyr a'i nodi.

372 YMGYNGHORIAD AR Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFRAMWAITH CYFALAF AWDURDODAU LLEOL:

Cyflwynodd y Clerc llythyr ynghyd â dogfen ymgynghori i'w ystyried oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Nid oedd y mwyafrif o'r newidiadau yn effeithio ar Gynghorau Tref a Chymuned. Cafodd y rhai oedd yn berthnasol i'r Cyngor Tref eu hamlygu.

Penderfynwyd derbyn y dogfennau a'u nodi.

373 CWMNI CREST CYDWEITHREDOL CYF.:

Cyflwynodd y Clerc llythyr oddi wrth Gwmni Crest Cydweithredol Cyf. yn cynnig rhoi cyflwyniad i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

Penderfynwyd derbyn y llythyr a'i nodi.

Fe benderfynwyd ymhellach derbyn y cynnig ac estyn gwahoddiad iddynt i fod yn bresennol yng Nghyfarfod y Cyngor ar 26ain Ebrill 2010.

374 LLYTHYR O DDIOLCH:

Cyflwynwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Grŵp Canolfan Cymunedol Bae Colwyn Uchaf Cyf. am y cymorth grant.

Penderfynwyd derbyn y llythyr a'i nodi.

375 CYNHADLEDD GOGLEDD CYMRU CLYMBLAID GENEDLAETHOL MERCHED CYMRU AR FLWYDDYN EWROPEAIDD I WRTHSEFYLL TLODI AC EITHRIO CYMDEITHASOL:

Cyflwynwyd hysbysiad am y cyfarfod sydd i'w gynnal ar 5ed Chwefror 2010 yn y Clwb Cymunedol, Cyffordd Llandudno o 10.00am – 15.15pm.

Penderfynwyd derbyn yr hysbysiad.

Fe benderfynwyd ymhellach bod yr aelodau unigol i wneud eu trefniadau eu hunain os ydynt yn dymuno fod yn bresennol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 p.m.